

❖ LLAWENYDD MAWR

*Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd,
yr hwn yw Crist yr Arglwydd.
(Luc 2:11) (BWM)*

Rywbyrd yng nghanol pedwardegau'r ganrif ddiwethaf y dechreuodd yr hwyl, pan ddigwyddodd Cledwyn (o Dal-y-sarn), Merêd (o Danygrisiau) a minnau (o Lanystumdwy) daro ar ein giydd uwchben coffi boreol y coleg ym Mangor, a lled-ganu gyda'n gilydd mewn harmoni. Dyna pryd y mentrodd Sam Jones o'r BBC ollwng Triawd y Coleg ar glyw'r genedl. Gydag amser, daeth yn arfer gennym ganu'r garol 'Dawel Nos' a 'Carol y Blwch' bob Nadolig wrth ddarlledu'r Noson Lawen o Neuadd y Penrhyn.

Un diwedd Rhagfyr, derbyniodd y BBC lythyr oddi wrth Dr Theodor Kremer o Bafaria yn egluro sut y bu'n troi nobiau ei set radio un noson ac iddo glywed y garol 'Stille Nacht' (yn wreiddiol o'i wlad ei hunan) yn cael ei chanu mewn iaith na chlywodd erioed mohoni o'r blaen.

Felly y digwydd pethau pan yw'r Llawenydd Mawr ar ei siwrnai: Carol Bethlehem, Carol Bangor, Carol Bafaria – ni waeth o ble y'i cenir na fydd y tonfeddi'n cipio'r neges nes bod y Newyddion Da yn llonni nef a daear unwaith eto, a'r eco'n atseinio rhwng creigiau Eryri a'r Alpau uchel – fel y tystia Marc 1:28: 'Ac aeth y sôn amdano ar led ar unwaith...'

Bydded Nadolig gwir lawen i chwithau a'ch anwyliaid, yn agos ac ymhell.

Robin Williams